**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **9 Mehefin 2023** |
| **Teitl:** | **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Ystyried yr adroddiad mewn perthynas â Chyhoeddiadau'r Cadeirydd** |

**Cyflwyniad**

Yn dilyn cyfarfod rhwng Arweinwyr Grwpiau ac adolygiad o arfer gydag Awdurdodau Lleol eraill, cynigir bod yr eitem sefydlog 'Materion Personol' ar agenda'r Cygor yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau cysondeb a phriodoldeb y materion a godir.

Ar hyn o bryd, gofynnir i Aelodau hysbysu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod os ydynt yn dymuno codi mater personol, a hynny drwy'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, ond mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o faterion personol yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfarfod. Yn ystod cyfarfodydd diweddar, mae mwy na 25 o faterion personol wedi cael eu cofnodi, ac mae cryn dipyn o amser y Cyngor yn cael ei dreulio yn cyflwyno'r eitemau hyn.

Nid yw Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi nod na phwrpas yr eitem hon ar agenda'r Cyngor, ac o'r herwydd, gall y cynnwys fod yn eang iawn, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â llongyfarch a chydymdeimlo â phreswylwyr fesul ward. Nodwyd bod hyn wedi arwain at ddiffyg cysondeb.
e.e. llongyfarch rhai trigolion penodol ar ddathlu penblwyddi arbennig, tra bod eraill yn cael eu methu; llongyfarch rhai aelodau o staff ar eu hymddeoliad, tra nad yw eraill yn cael cydnabyddiaeth o'r fath; a llongyfarch unigolion sy'n hysbys i'r Aelodau ar gystadlaethau amrywiol ar draws y sir, tra nad yw eraill yn cael cydnabyddiaeth.

**Adolygiad o arfer gydag Awdurdodau Lleol eraill**

Cafodd adolygiad o holl arferion Awdurdod Lleol Cymru ei gynnal yn ystod mis Mai eleni. Roedd y sampl yn cynnwys un agenda Cyngor safonol fesul awdurdod lleol, a gyhoeddwyd ar y rhyngrwyd. Nodwyd nad oes unrhyw Awdurdod Lleol arall o'r sampl hon yn cynnwys 'Materion Personol' ar agenda'r Cyngor. Isod mae sampl o eitemau agenda amgen a nodwyd:

a) Derbyn cyhoeddiadau gan y Cadeirydd, yr Arweinydd, Aelodau'r Cabinet neu'r Prif Weithredwr.

b) i dderbyn cyhoeddiadau gan:
(i) Maer (neu'r Llywydd)
(ii) Aelodau'r Cabinet
(iii) Prif Weithredwr

c) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

ch) Adroddiadau gan y Cadeirydd

d) Cyhoeddiadau / Materion Personol
(i) Llywydd
(ii) Cadeirydd / Dirprwy Lywydd

dd) Cyhoeddiadau gan yr Arweinydd neu'r Prif Weithredwr

**Y Cynnig**
Argymhellir felly bod ‘Cyhoeddiadau’r Cadeirydd’ yn disodli’r eitem Materion Personol ar yr agenda. Gofynnir i’r holl Aelodau roi gwybod i’r Cadeirydd am unrhyw faterion yr hoffen nhw eu cyflwyno i’w hystyried gan y Cadeirydd, a hynny drwy’r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd perthnasol. Bydd angen i’r holl faterion gael eu cyflwyno o leiaf 2 ddiwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod, a bydd y Cadeirydd yn darllen crynodeb o’r cyhoeddiadau hyn yn ystod cyfarfod y Cyngor.

**Eitemau i’w hystyried ar gyfer Cyhoeddiadau’r Cadeirydd**
Y Cadeirydd fydd â’r disgresiwn terfynol wrth ystyried perthnasedd y materion a gyflwynir, ac er nad yw’r canlynol yn rhestr gyflawn, dylai roi canllaw i’r Aelodau:
- Llongyfarch unigolion sydd wedi’u dewis i gynrychioli Cymru neu sydd wedi ennill cystadleuaeth genedlaethol. Fodd bynnag, dylai Aelodau geisio osgoi gormod o ddyblygu, e.e. bob tro y mae unigolyn yn cael ei ddewis i’r tîm, bob gêm;
- Materion personol yn ymwneud â’r Aelodau, e.e. estyn cydymdeimlad ar farwolaeth aelod agos o’r teulu, dymuno gwellhad buan iddynt, neu eu llongyfarch ar briodas neu enedigaeth plentyn neu ŵyr.

Argymhellir bod Cyhoeddiadau’r Cadeirydd yn osgoi unrhyw beth sy’n gysylltiedig â staff, ac eithrio llongyfarchiadau ar ennill gwobrau sy’n ymwneud â gwaith y Cyngor, neu estyn cydymdeimlad â Phrif Swyddogion os oes aelod o staff wedi marw. Argymhellir hefyd bod y Cyhoeddiadau yn osgoi materion lleol megis llongyfarch unigolion ar benblwyddi, ennill cystadlaethau lleol, pasio arholiadau ac ati; byddai’n well pe bai’r rhain yn cael eu hymdrin â nhw ar lefel Ward neu gan y Cyngor Tref/Cymuned perthnasol.

Cydnabyddir y gall rhai materion godi ar y funud olaf ac efallai na fydd yn bosibl cyflwyno’r wybodaeth hon 2 ddiwrnod gwaith clir ymlaen llaw. Mewn amgylchiadau o’r fath, cynigir bod yr Aelod yn rhoi gwybod i’r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd perthnasol cyn gynted ag y bo modd, cyn i’r cyfarfod ddechrau, a fydd yna’n trafod y mater gyda’r Cadeirydd.

**Y Camau Nesaf**
Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y cynigion uchod, ac yn rhoi argymhelliad i’r Cyngor mewn perthynas â Chyhoeddiadau’r Cadeirydd.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | a) Ystyried y cynigion yn yr adroddiad, er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor |

**Atodiadau:**

**Dogfennau cefndir:**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Lowri Edwards |
| **Teitl Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 16.05.2023 |